



# Pecyn Cystadlu

Cystadleuaeth Defnyddiwr Ifanc – Dylanwadwr y  
Flwyddyn 2023

## Ynglŷn â'r gystadleuaeth

Mae Defnyddwyr Ifanc – Dylanwadwr y Flwyddyn yn gystadleuaeth genedlaethol a ddatblygwyd gan y Sefydliad Safonau Masnach Siartredig (CTSI) yn gweithio mewn partneriaeth â Thîm Benthycwyr Arian Anghyfreithlon Lloegr (IMLT), y Gynghrair Grymuso Defnyddwyr ac Experian. Mae'r gystadleuaeth wedi'i chynllunio ar gyfer y rhai 13 -17 oed ac rydym yn cefnogi ysgolion a grwpiau ieuencid i helpu i addysgu pobl ifanc am fenthycwyr arian yn anghyfreithlon, diogelwch cynnyrch a gwerthu tân gwyllt o dan oed

## Beth yw benthycwyr arian/benthycwyr arian anghyfreithlon?

Nid yw benthycwyr arian **anghyfreithlon** (a elwir weithiau yn Siarcod Benthycwyr Arian) yn cael eu cymeradwyo gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) a byddant yn codi cyfraddau llog uchel iawn ac yn ychwanegu taliadau anwahaniaethol. Bydd benthycwyr arian **anghyfreithlon** yn aml yn ceisio rheolaeth dros eu dioddefwyr, gan ddefnyddio bygythiadau a brawychu a chadw dioddefwyr yn gaeth mewn cylch o ddyled. Mae CTSI ac IMLT yn ymgychu i godi ymwybyddiaeth o fenthycwyr arian anghyfreithlon i oedolion ifanc a allai fod yn fregus yn ystod yr argyfwng costau byw.

[Dysgwch fwy am fenthycwyr arian anghyfreithlon a benthycwyr didrwydded](#)

## Pam mae diogelwch cynnyrch yn bwysig?

Gall cynhyrchion fel colur, nwyddau trydanol a theganau fod yn anniogel, gan achosi anaf i bobl sy'n eu defnyddio. Oeddech chi'n gwybod bod dros £2.2m o golur a chynnyrch gofal croen ffug wedi'u hatafael i'r llynedd? Mae'r rhan fwyaf o gosmetig ffug yn cynnwys cemegau niweidiol a all achosi niwed i'ch croen. Yn yr un modd, rydym yn gwybod bod e-feiciau ac e-sgwteri yn cynnwys tân oherwydd batris diffygiol, gyda 88 o danau yn Llundain y llynedd yn unig!

[Dysgwch fwy am ddiogelwch cynnyrch gan Consumer Friend](#)

## Gwerthu tân gwyllt dan oed

Gall tân gwyllt fod yn beryglus, yn enwedig os ydynt yn y dwylo anghywir. Mae pobl ifanc 15 i 19 oed yn fwy tebygol o gael eu brifo gan dân gwyllt, ac mae dros **550** o bobl ifanc yn mynd i'r ysbyty yn y pen draw oherwydd tân gwyllt bob blwyddyn.

[Rhaqor o wybodaeth am ddiogelwch tân gwyllt gan ROSPA](#)

## **Sut mae'n gweithio**

Rydym yn gwahodd pob person ifanc i ddefnyddio eu sgiliau creadigol a'n helpu i godi ymwybyddiaeth mewn tri maes – benthycwyr arian anghyfreithlon (siarcod benthycwyr arian), materion diogelwch cynnyrch a gwerthu tân gwyllt dan oed. Gall ymgeiswyr gystadlu drwy ddefnyddio cân/rap, cerdd neu stori fer sy'n addysgiadol ac yn ymgysylltu â'u cyfoedion.

Yna bydd y beirniaid yn penderfynu ar y tri chais gorau a bydd y rhai sy'n cyrraedd y rownd derfynol yn brwydro gyda'u ceisiadau ar y cyfryngau cymdeithasol. Bydd y cais sydd â'r nifer uchaf o bleidleisiau (hoffi a rhannu) yn cael ei goroni'n enillydd a bydd yn cael ei wahodd i berfformio ei gyflwyniad yng Ngwobrau Arwr CTSI yn Nhŷ'r Senedd ym mis Tachwedd. Bydd pob enillydd yn derbyn gwobr (hyd at dri enillydd i bob grŵp) a'u hysgol neu sefydliad ieuenctid!

## **Meini prawf beirniadu**

Eleni, mae'r beirniaid yn chwilio am greadigrwydd a dawn cyflwyno o fewn dy bwnc dewisol. Rhaid i gyflwyniadau fod yn addysgiadol ac yn ddeniadol i gyfoedion.

## **Yr hyn y gallet ei ennill**

1<sup>af</sup>: £1,000 i'r ysgol/sefydliad ieuenctid a thaleb siopa £100 i bob un o'r enillwyr! (Hyd at 3 enillydd i bob tîm).

2<sup>il</sup>: Talebau siopa £50!

3<sup>ydd</sup>: £25 o dalebau siopa!

## **Wyt ti'n barod i fod y dylanwadwr nesaf?**

Anfona dy gais at [influencer@tsi.org.uk](mailto:influencer@tsi.org.uk) neu tagia @CTSI ar y cyfryngau cymdeithasol gyda dy gais erbyn dydd Gwener 30 Medi 2023. Uchafswm o 3 o bobl i bob cais. Yn agored i unrhyw un 13 -17 oed ar draws y DU. Cer i [www.tradingstandards.uk/influencer2023](http://www.tradingstandards.uk/influencer2023) am fwy o wybodaeth

## **Telerau ac Amodau**

- Gall pobl ifanc gymryd rhan yn y gystadleuaeth yn unigol neu mewn grwpiau o hyd at dri o bobl.
- Rhaid i ymgeiswyr fod yn 13 oed ar 1<sup>af</sup> Medi 2023 hyd at 17 oed ar 31<sup>ain</sup> Awst 2024.
- Rydym yn derbyn nifer o geisiadau gan un ysgol neu grŵp ieuenctid.
- Rhaid i geisiadau gadw at feini prawf y pwnc – gan gynnwys benthycwyr arian anghyfreithlon, materion diogelwch cynnyrch a gwerthu tân gwyllt dan oed. Rhaid i'r cyflwyniadau fod yn addysgiadol ac yn ymgysylltu â myfyrwyr eraill.
- Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cais yw 30<sup>ain</sup> Medi 2023. Bydd beirniaid Defnyddiwr Ifanc – Dylanwadwr y Flwyddyn yn dewis y tri chynnig gorau a byddant yn cyhoeddi enillwyr yng Ngwobrau Arwr Blyneddol CTSI ar 22<sup>ain</sup> Tachwedd yn Nhŷ'r Senedd.
- Rhaid i ymgeiswyr fod ar gael i fynychu'r seremoni enillwyr ar ddydd Mercher 22<sup>ain</sup> Tachwedd. Bydd costau teithio rhesymol yn cael eu talu gan CTSI.

- Bydd ceisiadau amhriodol sy'n cynnwys trais, arfau neu iaith fras yn cael eu gwahardd o'r gystadleuaeth.
- Anfona dy geisiadau at [influencer@tsi.org.uk](mailto:influencer@tsi.org.uk)

### Amserlen ar gyfer Defnyddiwr Ifanc – Dylanwadwr y Flwyddyn 2023

<i>Amserlen</i>	<i>Dyddiad</i>
<b>Lansio cystadleuaeth</b>	<b>22 Mehefin yng Nghynhadledd CTSI ym Birmingham</b>
Anfon pecynnau gwybodaeth at ysgolion, grwpiau ieuencid a sefydliadau eraill	Wythnos yn dechrau 26 Mehefin
Lansio ymgyrch cyfryngau cymdeithasol	Wythnos yn dechrau 3 Gorffennaf ac yn parhau tan 30 Medi
<b>Cystadleuaeth yn cau</b>	<b>30 Medi</b>
Llunio rhestr fer a chyhoeddi'r rhai sydd wedi cyrraedd y rownd derfynol	Yn gynnar ym mis Hydref
Ymgyrch cyfryngau cymdeithasol i bleidleisio dros enillwyr	Canol – diwedd mis Hydref
Dewis yr enillydd	Wythnos yn dechrau 6 Tachwedd
<b>Coroni'r enillydd</b>	<b>22 Tachwedd yn ystod Gwobrau Arwr y CTSI yn Nhŷ'r Senedd</b>

*Sefydliad Safonau Masnach Siartredig (CTSI) yn gweithio mewn partneriaeth â Thîm Benthycy Arian Anghyfreithlon Lloegr (IMLT), Experian, Cynghrair Grymuso Defnyddwyr a'r Swyddfa Diogelwch a Safonau Cynnyrch i godi ymwybyddiaeth o beryglon benthycwyr arian anghyfreithlon, diogelwch cynnyrch a gwerthu tân gwyllt dan oed.*



YOUNG  
CONSUMER

INFLUENCER  
OF THE YEAR

CHWILIO AM EIN   
DYLANWADWR NESAF

ENNILL!

£1,000 i dy ysgol/  
sefydliad ieuenctid

£100 o dalebau siopa ar  
gyfer pob enillydd

Cyhoeddir  
enillwyr yn  
Nhŷ'r Senedd!

- 3
- Hyd at 3 o bobl fesul cais
  - Bydd yn greadigol mewn 3 ffordd wahanol -  
naill ai stori fer, cerdd neu gân/rap
  - Dewisa o 3 testun - benthyciwr arian  
didrwydded, materion diogelwch cynnyrch a  
gwerthu tân gwyllt o dan oed



Barod i gystadlu?  
Sgania'r Cod QR neu cer i  
[tradingstandards.uk/influencer2023](https://tradingstandards.uk/influencer2023)